

Cofion

- Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddiâu heddiw eto. Mae Eirlys Broadhead (Llansannan) yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd. Yno hefyd yn cael llawdriniaeth y bu Beryl Jones (Nantglyn) ond da deall ei bod hi, fel Sara Jones (Llanefydd) a fu yno dros y penwythnos diwethaf, wedi cael dod adref. Erbyn y penwythnos hwn, bydd Lloyd Edwards a John David Williams (Groes) wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Abergele, ac mae Nesta W. Davies (Cefn Meiriadog) yn disgwyl dychwelyd i Ysbyty Gobowen am fwy o lawdriniaeth yr wythnos hon. Gweddiwn y bydd popeth yn mynd yn hwylus iddi hithau ac y bydd pob un o'r cleifion hyn yn adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd yn ddigon iddynt y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy a'u teuluoedd i ofal Duw, gan ddiolch am y sicrwydd Ei fod yn gwrando'n gweddiâu, ac am addewid o'i ffyddlondeb.
- Ar yr un pryd, cydnabyddwn fod eraill o'n plith ynghanol amrywiol dreialon bywyd, a phery'r rhain yn ein gweddiâu yr un modd.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Morfydd Williams (Llanefydd) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ddydd lau nesaf.

Gwaith Llafar yr Ysgol Sul

Gobeithio bod pawb wrthi'n dysgu'r darnau o'r Ysgrhythur ar gyfer Gwaith Llafar yr Ysgol Sul a'ch bod bellach wedi gosod dyddiad yn ystod un o'r tri Sul cyntaf ym mis Mehefin i'w gyflwyno yn eich eglwys leol! Edrychwn ymlaen i glywed môr o leisiau yn cyd-lefaru yn y cyfarfodydd "i-Grist" a'r "Oedfa o Fawl" yn Llansannan yn ystod Sul olaf mis Mehefin.

I ddo

- **Y Gairathon** (o'r Bala i Lanfihangel y Pennant) dydd Sadwrn, Mehefin 9fed. Cysylltwch ag Elen Elias (01492 543320/07760 452145) os oes gennych ddi-ddordeb i redeg rhywfaint o'r daith. Manylion yr oedfa a'r trefniadau eraill i ddilyn.
- **Cymanfa Ganu** yr Annibynwyr (oedolion a phlant) yng Nghapel Bethel, Stryd Newydd, Yr Wyddgrug ar bnawn Sul, Mehefin 10fed am 2.30. Arweinydd: Iona Jones, Llansilin. Croeso cynnes i bawb.
- **Christian Viewpoint** yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Mehefin 11eg am 7.30. Sgwrs gan Margaret Lake ar "...a bydd y deillion yn gweld" a swper i ddilyn am £3.00.
- **Diwrnod Genod (16+)** yng Ngholeg y Bala nos Wener a/neu dydd Sadwrn, Mehefin 15-16eg. Cyfle i ymlacio, rhannu cymdeithas a dysgu. Cofiwch bod angen archebu lle ymlaen llaw. Mwy o fanylion a ffurflen archebu gan Angharad Clwyd: (01678) 520565.
- **Adnabod DAWN** - y sesiynau dilynol yn y gyfres i feithrin arweinwyr lleol ar Mehefin 19eg, Gorffennaf 3ydd a'r 17eg.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 27^{ain} Mai 2012

Sylwch bod angen archebu lle ar gyfer y
Diwrnod Genod (16+) yng Ngholeg y
Bala. Manylion ar y cefn.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Mae'r fflam wedi cyrraedd Cymru! Byddai'n braf gallu dweud hynny am fflam yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost, ond at y fflam Olympaidd rwy'n cyfeirio. Mae'r daith wedi ei threfnu'n ofalus a gobeithio na fydd digwyddiadau trwstan ar y ffordd na neb yn colli eu ffordd fel sydd wedi digwydd unwaith yn barod! Bydd y torfeydd yn heidio i'w gweld a bydd llawer yn cofio ei gweld am flynyddoedd i ddo.

Tybed sut groeso fyddai fflam yr Ysbryd yn ei gael yng Nghymru? Beth am fy nghalon i? Un peth yw dymuno Pentecost ar Gymru, ond peth arall yw gofyn am bresenoldeb tanlyd yr Ysbryd a'i oleuni tanbaid yn fy mywyd i. Gormod o dywyllwch ynof o hyd ac ofn ymroi yn llwyr i Dduw. A fedrwn i oddef presenoldeb yr Ysbryd yn ei nerth?

Un peth sy'n sicr, mae taith yr Ysbryd wedi ei drefnu'n ofalus gan Dduw. Mae'r llwybr yn hollol eglur o'r cychwyn ac fe fydd yr Ysbryd yn cael rhedeg ar hyd y ffordd honno. Sut y gallaf fod mor siŵr o hyn? Gan mai ar sail gwaith Crist ar y groes a'i atgyfodiad, ei esgyniad a'i eiriolaeth y mae'r Ysbryd yn cael ei roi ac nid oes dim colli'r ffordd i fod. Bydd pob peth yn gweithio'n iawn.

Rhodd Duw yn Iesu yw'r Ysbryd, ac, fel Tad cariadus, y mae Duw yn falch iawn o fedru rhoi rhoddion da i'w blant. 'Gofynnwch ac fe gewch' yw addewid rasol Iesu.

Fe fydd wyth mil o redwyr yn cario'r fflam trwy Gymru ac yn trosglwyddo'r fflam o'r un i'r llall. Un Ysbryd sydd, a bydd yr Ysbryd yn goleuo pob un yn unigol ac yn eu gwneud ar dân - yn dystion i Grist. Gweddi daer yn yr Ysbryd sy'n dod â ni yn agos i'r fflam. A'r Ysbryd sy'n tanio'r fflam ynom. Pan nad ydan ni'n gwybod beth i'w weddio, mae'r Ysbryd yn ein helpu. Pan rydan ni yn clodfori Iesu, yr Ysbryd sydd yn dangos gogoniant Iesu i ni. Pan rydan ni ar goll, yr Ysbryd sydd yn dangos Duw a'i ddiogelwch i ni. Pan rydan ni'n teimlo nad oes ynom ni'r bywyd ysbrydol yn iawn, yr Ysbryd sydd yn ein bywhau ni.

O feddwl am hyn ac o gael y fraint o wybod am eich profiadau chi fel aelodau'r ofalaeth a Christnogion eraill ar draws Cymru gallaf ddweud yn hyderus – mae'r fflam wedi cyrraedd Cymru! Ac ie, at fflam yr Ysbryd yr wyf yn cyfeirio! Gallwn ddatlu felly ddyfodiad y fflam a gweddiwn eto heddiw:

“O anfon di yr Ysbryd Glân, yn enw Iesu mawr, a'i weithrediadau megis tân, O deued Ef i lawr”. (Emyn 568, Caneuon Ffydd)

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30. Ceisiadau gweddi i Hafwen (813445) neu Celfyn (550274), os gwelwch yn dda.
- Mercher • **Adnabod DAWN** yn y Granar, Llansannan am 7.30. Yr ail yn y gyfres i feithrin arweinwyr lleol.
- Iau • **Parti diwedd blwyddyn Cyfarfod Plant Llanefydd a Llansannan** yn Neuadd Llanefydd. Bydd y bws yn gadael maes parcio'r capel yn Llansannan am 3.15 ac yn dychwelyd am 5.15.
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ. (Paned am 10.00, y darlithoedd yn cychwyn am 10.30.)
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Aled Owen, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghefn Meiriadog am 10.30 gyda chinio cynnil (£5) i ddilyn, gyda'r elw tuag at Gymorth Cristnogol. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn y cinio. Yn Llanfair, cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol i'r teulu a Chyfarfod Gweddi am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch Irfon Parry yn arwain oedfa am 10.00 gydag Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch Irfon Parry yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00 (sylwer ar y newid amser). Bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais yn yr oedfa yn Saron er mwyn ethol blaenoriaid newydd. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cyd-redeg ag oedfa'r bore yn Saron.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Arawn Glyn yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau